



Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027

Bwletin Llên Natur 14

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

www.llennatur.com

Rhifyn Mawrth 2009



Bydd arddangosfa o waith y Chwiorydd Massey i'w gweld yn Oriel Môn, Llangefni rhwng 21 Chwefror a 12 Gorffennaf 2009

Chwith agos: y planhigyn a ddefnyddiwyd ers stalwm yn lle'r mandraglys gan y "meddygon" cynnar, oherwydd ei wreiddyn tebyg, oedd cwlwm y coed sy'n tyfu yma ym mhob perth (Gwenddolen Massey)

Chwith: Roedd Gwenddolen (1864-1960) ac Edith Massey (1863-1946), Cornelyn, Llangoed, yn aelodau o gymdeithas bonedd a chymdeithas hela â cheffylau ar Ynys Môn. Hanai'r teulu o Gaer a chodwyd y cartref ym Môn yn 1861.

Cwlwm y coed, maip Adda, a Viagra'r mandragorau

Ymhell cyn oes y Gwasanaeth Iechyd bu stondinwyr y "Ffair Llysiau Llesol" yn pedlera dail a gwreiddiau, a gobaith diniwed, i gleifion o bob math, yn fonedd a gwreng. Heddiw dim ond y rhai mwy crediniol yn ein mysg a'r rhai sydd yn llugoer eu hagwedd at feddygaeth wyddonol y mae'r farchnad amgen yma yn eu gwasanaethu. Yn y ffair hon bu - mae - cwacyddiaeth yn rhemp. Dewch gyda mi yn llygad eich dychmyg, i ffwrdd o faes y ffair i lawr y strydoedd cefn, i'r isfyd meddygol nad ar chwarae bach mae dyn yn mentro yno o gwbl.



Teulu'r tatws, y *Solanaceae*, yw "Teulu'r Fall" y llysiau hyn, y teulu sydd ar y ffin penfeddwol hwnnw rhwng y bwyriadwy, yr hyd a'r llethrith, a'r gwenwyn marwol. Y dysan gyffredin yw'r mwyaf cyfarwydd ohonynt - bendith a mellith yr un pryd - ond mae yna eraill o'r tylwyth sydd ar werth, o dan y cownter fel petae. Gwrandewch ar eu henwau - y codwarth (*deadly nightshade*, *Atropa belladonna*), yr afal dreiniog, baco (ia, hwnnw!), elinog, a llewyg yr iâr (*henbane*). Cafodd rhyw *Celebrity Chef*, sy'n gwybod llai

am ei flodau nac am ei goginio, ddipyn o ail yn ddiweddar wrth iddo argymhell yr olaf o'r rhain fel cynhwysyn yn un o'i rysetiau! Ond mae yna lysieuyn arall o'r teulu hwn, cyfarwydd i rai, a chwbl ddieithr i'r mwyafrif heddiw - sef y mandraglys (*Atropa mandragora*) a anfarwolwyd, diolch i'r Beibl, am ei allu i hybu ffrwythlondeb (Gweler y llun).

Yng ngwreiddyn y mandraglys roedd ei rinweddau, gan iddo ymdebygu, o'i godi o'r ddaear, i gorff dyn. Cyfeirir ato yn llyfr Genesis: "Pan welodd Rahel na phlantasai hithau i Jacob..Reuben a aeth yn nyddiau cynhaeaf gwenith, ac a gafodd fandragorau yn y maes...ac wedi hynny hi a esgorodd ar ferch". Yn y canol oesoedd ymgasglodd pob math o straeon sinistr o'i gwmpas, a dywedwyd iddo egino dan grogbrenni o'r sberm a fwrwyd gan anffodusiaid o ddynion tra'n crogi. Ac o'i ddadwreiddio â llaw, dywedwyd iddo sgrechian yn y modd mwyaf arswydus nes achosi gwallgofrwydd yn y sawl a'i clywodd.

Y planhigyn a gynigiwyd ers stalwm yn lle'r mandraglys gan y "meddygon" cynnar, oherwydd ei wreiddyn tebyg, oedd cwlwm y coed (*black bryony*), sydd yn tyfu yma ymhob perth. Er yn llawn mor wenwynig a'i eilun yn ei ffrwythau coch llachar, nid yw'n perthyn i deulu'r dysan o gwbl.

Wn i ddim pa gred a roes Gwendolen ac Edith Massey i'r cyfryw ofergoelion. Trigent ym Mhlas Cornelyn, Biwmares tan yr 1960au ac yn ôl traddodiad eu cenedlaeth a'u dosbarth, roedd paentio blodau yn ffordd barchus a sedét o dreulio amser i Ledis y Plas. Yn Oriel Môn cedwir casgliad o'u paentiadau a bydd arddangosfa ohonynt yn yr Oriel yn 2009. Un nodwedd arbennig o'u gwaith yw bod pob llun yn cynnwys gwreiddyn y planhigyn. Nid yw'n anodd gweld pam fod cwlwm y coed yn eilun derbyniol i'r mandraglys ym meddwl ein cyndeidiau. Maip Adda oedd enw pobl Môn arno - tinc o'r hanes yn Genesis efallai? *Addasiad o erthygl yn Y Cymro*

Moel eto

Newydd ddarllen eglurhad o'r gair Saesneg *bald* yn *A Dictionary of Lake District Place-Names* (Diana Whaley 2006). Tardda o Saesneg Canol *balled* 'rounded, bald, bare'. Hynny yw, doedd wnelo fo ddim â bod yn ddi-flew, ffurf gron a ddynoda [Rhifyn 8]. Byddai'r ystyr crwn yn gweddu'n dda i fryn isel yn ogystal ag i'r hyn sy'n ymwthio uwchben ymyl cawg. Trosiadol fyddai'r defnydd am yr hyn a geir yn y llygaid [Rhifyn 11]. Annoeth fyddai cynnig hyn fel damcaniaeth felly sylwad yw yn unig.

Guto Rhys

...a moel eto fyth

Yn ardal y Carneddau yn Eryri ceir enghreifftiau o foelydd uwchlaw mannau lle'r oedd coed ar un adeg. Mae Afon y Berthen, Cerrig yr Argoed a Braich y Brysgyll ar yr un lefel uwchlaw'r môr, ac yn amlwg wedi'u henwi pan oedd y llethrau wedi eu gorchuddio â choed a llwyni. Uwchlaw'r mannau hyn, sy'n cyfeirio at y coed a'r llwyni, mae nifer o foelydd, sef y Foelgraig, Moel Meirch, y Foel Fechan, y Foel Ganol, yr Elan (Moel yr Elain). Byddai'n ddiddorol gwybod beth ydy'r dystiolaeth dopograffaid am y mynyddoedd yn Ardal y Llynnoedd y tybia rhai bod y gair 'moel' yn rhan ohonynt, e.e. Mellbreak, Great Mell Fell, Little Mell Fell, Mallerstang, Mealrigg, Meldon Hill, a Cartmell?

Ieuan Wyn

O'r Blwch Llythyrau

I have been trying to look for place names which incorporate either rodents (not rabbits by the way), moles, voles or shrews. They seem to be few and far between. I have only found one mole related placename in Galloway, but feel I may be on the wrong track (Ray Bell).

Dear Ray Bell, your message has been forwarded to me as a fellow collector of "nature" place names, but in my case mostly in Wales. Mole in Welsh is gwadd (mut. wadd), or (g)wahadden, and twrch daear (literally earth pig). As for place names containing the first two, there are quite a few shown in the Melville Richards collection www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx, eg Bryn y Wadd (mole hill(!)), Cors y Waddod (mole marsh), Erw Wadd (mole acre), Rhyd Waddan (mole ford) etc. As for vole names I'm not sure whether they would appear in place names, at least in Wales as mice and voles were not distinguished until recently in Welsh and I suspect not truly in rural English either since vole was originally vole-mouse which I believe is a corruption of field mouse. As for shrew names, the Welsh for shrew is llyg which is not far removed from the Welsh llygoden (I suggest an evolution as follows: llyg (= any shrew or mouse >> llygod = w"mice" >> llygoden (reversion of the plural to a singular form ending in -en now meaning mouse. This latter has occurred in pysg > pysgod > pysgodyn = fish/fishes > fishes > a fish). Another possible Welsh name for shrew (now obsolete perhaps) is the onomatopaeic chwistlen. DB [Ôl-nodyn: oni fyddai'n rhyfeddod i ddarganfod bod mole (Saesneg) yn gytras â "moel" Cymraeg, hynny yw, nad "gwadd" yw mole ond hill fel yn mole-hill! Go brin - ond clywais gan Guto Rhys am rhywbeth tebyg, sef nad ant yw "morgrug" ond "ant-hill" (hy. crug y môr). Geiriadur Prifysgol Cymru

Dôl afon - Cwestiwn Lari

Cwestiwn: Mewn erthygl ddiweddar soniwyd am y cysylltiad rhwng 'dôl' ac 'afonydd yn dolennu', cysylltiad nad oedd, mae'n rhaid i mi gyfaddef, yn un y byddai wedi dod i fy meddwl. Yr oeddwn i erioed wedi cysylltu'r gair dôl â'r gair Saesneg *dale* a'r gair Almaeneg *Tal*. "Dros fryn a dôl", dywed y Cymro, tra bydd y Sais yn dweud *over hill and dale*. A gafodd yr ymadrodd ei 'gyfieithu' tybed? Lari Parc

Ateb: Dyma ddywed Geiriadur Prifysgol Cymru:

Dôl < *Clit. *dola* o'r gwr. *dholo- 'bwa, plygiad' ..Groeg: *dolos* [mewn llythrennau Groegaidd] 'cromen' fel yn y *Gymraeg 'addoli'* [rhaid cofio bod y seren* yn golygu gair damcaniaethol]. Ystyr cyntaf: llecyn gwastad ar lan afon, *meadow, dale, field, pasture, valley*.

Ail ystyr: *dolen, cylch, tro, bwa,.. loop, ring, bend, bow, ox-bow* [sef dolen afon wedi ei hynysu].

Nodiadau Tywydd Huw a Twm

Two sayings with this picture. "Frosted sun, rain to come" The sun looks as seen through frosted glass, the cloud is Altostratus and is a common sign of rain. "Winds that



change against the sun, are always sure to backward run." This saying refers to a backing wind that shifts in a counterclockwise direction, for example, from south-west, to south, to south-east. A backing wind, with Altostratus cloud, is a sure sign of rain and strengthening wind to come, because winds back as a low pressure system approaches HHJ

Dywediad cyffredin yn y gogledd a'r canolbarth i ddisgrifio sut mae'r haul, neu'r lleuad yn y nos, yn graddol wanio neu ddiiflanu y tu ôl i haen o gymylau *Altostratus* yw: 'yr haul (neu'r lleuad) yn boddî'. Mae'n arwydd o droi tywydd, h.y., dirywiad. Yng Ngheredigion dywedir: 'Yr haul yn boddî – glaw cyn yfory'. Bydd y cwmwl *Altostratus* yn ffurfio a thewychu wrth i ffrynt ddynesu a dywedir amdano bod 'yr awyr yn ceulo' – ceulo yn disgrifio'r patrwm ysgafn ar wyneb llaeth sy'n suro neu gawsio. Disgrifiadau eraill yw: 'awyr caws a lla'th' (y de), neu 'awyr caws a maidd'. Fel arfer bydd *Altostratus* yn ffurfio fel mae system o bwysedd isel a glaw yn dynesu ac un arwydd o hynny yw y bydd cyfeiriad y gwynt yn newid yn groes i'r cloc, e.e. newid o'r de orllewin i'r de. Dywediad am hynny yw y bydd 'y gwynt a'r haul yn croesi cyn glaw'. TE

Yr Hebog "Tramor" yn dod adref i Ysgol Craig y Don



Diolch o galon am yr erthygl ym mwletin Llên Natur-mae'r plant wedi gwirionni! (Rhifyn 12) . Ar ôl gweld yr Adar Cynffon Sidan mis diwethaf, cafwyd cyffro eto ar gae'r ysgol heddiw. Daeth Hebog Tramor i ddal Pioden y Môr o flaen y plant yn ystod

eu hamser chwarae ac yna aeth ati i rwygo'r hen aderyn yn ddarnau am yr ugain munud nesaf... gyda'r plant i gyd yn gwyllo! Am ffordd wych o ddysgu gwyddoniaeth a chadwynni bwyd i'r plant!



...a chorff llydandroed llwyd (*Grey phalarope*) ar draeth Cricieth, bnawn Sadwrn (24 Ionawr 2009). Tynnais y llun isod a chadarnhaodd yr adarydd Kelvin Jones mai iâr tros flwydd ydoedd (Aled Jones). Gweler Rhifyn 9. Roedd tywydd caled ddechrau'r flwyddyn wedi hen beidio (Gol.)



Pytiau

Fe fydde mam yn sôn am "gwynt yn bwyta'r eira" (Sir Aberteifi) pan fydde'r eira'n diflannu yn sgîl chwa o wyntoedd yn dilyn cyfnod o eira ar lawr. (Rhifyn 13, Sian Evans)

Tybed a'i **Cypanau tylwyth teg** yw'r enw Cymraeg ar *Cladonia*, sef y rhai tynnodd Aled Jones eu lluniau (Rhifyn 13)? Wedi dod ar draws llawer o'r rhain ar deithiau Cymdeithas Edward Llwyd yma ac acw (Tom Jones, Golan)

Dyfrgwn Rhys Jones

Mi ddois wyneb yn wyneb â thri dyfrgi bythefnos yn ôl wrth y llifddorau yn Porthmadog tra'n cyfri adar. Oedolyn ac un 'fengach - rhyw 5m oddi wrtha'i - tro cynta i mi weld un yng Nghymru. Wedi gyrru manylion at Cofnod www.cofnod.com




Hefyd mi ddois o hyd i faw dyfrgi ffres ym Mhorth Colmon dydd lau (29 Ionawr 2009) - mi oedd yna ddanedd pysgod ynddo.

Graffiau ar y Wefan

Mae nifer o ddarllenwyr y Bwletin yn cyfrannu graffiau tywydd i'r wefan. Dyma graff yn mesur Dyfodiad y Gwanwyn eleni o'i gymharu â 'r llynedd (hy. swm dyddiol cyfartaledd pob mesuriad tymeredd mwy na 5.6°C o

DYFODIAD Y GWANWYN, WAUNFAWR, 2009 a chymariaethau



Ionawr 1^{af} hyd at mynd i'r wasg). Beth am i chi ymuno â chofnodwyr tywydd Llên Natur a chofnodi tywydd eich gardd ar wefan Llên Natur? I weld yr holl graffiau tywydd eraill sydd ar gael, a'r graff hwn yn "fyw" wedi ei ddiweddarau hyd at heddiw ewch i <http://www.llennatur.com/cy/node/59>.

Tyddynnod Nasareth



Llun o batrwm caeau a thyddynnod uwchben Nasareth. Frondeg Fach yw'r agosaf. O *Snowdonia*¹ (1949) gan J.F. North, B. Campbell, ac R. Scott (*Cyfres New Naturalist*, rhif 13). Mae'n debyg mai esiampl gynnar o ffotograff lliw yw hwn.



....ac fel mae'r ardal heddiw. Rhestrwch y gwahaniaethau, beth sydd wedi cynyddu a beth sydd wedi mynd yn llai? Dyma ambell gliw: coed? Leylandiis? brwyn? tai? waliau a chaeau?

Medal William Jones



Mae cynnwys dyddiadur William Jones, Moelfre, Aberdaron yn ymddangos yn aml ym Mwletin Llên Natur. Dyma un o'i fedalau amaethyddol a enillodd W.J. yn Birmingham yn 1897.

(Diolch i'w deulu am y llun)

Bwgan Brocken



Bwgan Brocken, neu'r *Brockenspectre* 26 Ionawr 2009 Trum y Ddisgl.

Llun: Jeremy Trumper, Dolbenmaen
Bwgan Brocken (*The Brocken Spectre*) yw cysgod person ar niwl. Mae cerddwyr y mynyddoedd yn gyfarwydd â'r ffenomenon. Yn aml yn y mynyddoedd mae yna niwlen ar un ochr crib ond nid ar yr ochr arall. Mae'r cerddwr yn edrych i lawr ar y niwl gyda'r haul y tu ôl iddo, ac yn gweld ei gysgod. Weithiau mae'r cysgod yn ymddangos yn fawr iawn os ydy'r niwl yn agos, neu os ydy'r haul yn isel yn yr awyr.

Daw Brocken o enw'r copa ym mynyddoedd yr Hartz yn yr Almaen lle mae'r amodau i hyn ddigwydd yn arbennig o ffafriol. Yn Eryri, gyda'i gribau a'i niwloedd, mae'r amodau hefyd yn ffafrio Bwganod Brocken. Weithiau ceir cylch o olau lliwgar o gwmpas "pen" y cysgod a elwir yn "gogoniant" (*glory*). Achosir y gogoniant gan amryw adlewyrchiadau o belydrau'r haul mewn mân ddiferion dŵr yn y niwl neu'r cwmwl. Dim ond eich gogoniant eich hun gallwch ei weld. Os digwydd i chi weld y bwgan tra'n sefyll wrth ymyl cyd-gerddwyr mi fyddwch yn gallu gweld eu cysgodion hwythau hefyd, ond nid eu gogoniannau. Mae'r gogoniant yn unigryw i'r sawl sydd yn edrych. Wrth hedfan cewch weld weithiau Bwgan Brocken ar ffurf awyren ar y cymylau oddi isod - yr un egwyddor wrthgwrs. Huw Holland Jones

Brain yn cystadlu efo llwynogod



Dyma arysgrif ar garreg o Gernyw (*Men Scyrfa*) a welodd Ifor Williams yn ddiweddar wrth syrffio'r we: *RIALOBANUS CUNOVALI FILI*. Sylwodd mai'r un patrwm yw hwn â *Fili Iovernii anatemori* (Rhifyn 6), hynny yw, *RIALO* (*Royal*, gair clodfawr yn cyfateb i *ANATEMORI* sef eneidfawr), *BRANUS* (yr aderyn bran fel enw ar berson) yn cyfateb i *LOVERNII* (llwynog, fel enw ar berson), a *FILI* (mab yn perthyn i..). Ei ystyr felly yn ôl y wefan, yw *Son of Chief RoyalRaven*.

www.pznw.co.uk/historic1/inscribed.html

Cofnod Tywydd Brenhinol o'r Dyddiadur

9 Chwefror 1649: *It's so bitterly cold that the Thames is frozen as Charles I is led to the scaffold in Whitehall to be beheaded* (Woodward A. & Penn R., *The Wrong Kind of Snow*)